# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 2

STRATEGAETHAU CYMUNEDOL A CHYNLLUNIO CYMUNEDOL

*Dehongli*

### 47 Rhan 2: dehongli etc

(1) At ddibenion y Rhan hon—

mae i "ardal heddlu" yr ystyr a roddir i *"police area"* gan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu 1996;

ystyr "awdurdod heddlu" (*"police authority"*) yw awdurdod heddlu yng Nghymru a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf yr Heddlu 1996;

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol" (*"National Park authority"*) yw awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

mae i'r ymadrodd "awdurdod tân ac achub Cymreig" (*"Welsh fire and rescue authority"*) yr un ystyr â'i ystyr yn adran 1(c);

rhaid dehongli "cynllunio cymunedol" (*"community planning"*) yn unol ag adran 37;

ystyr "partner cynllunio cymunedol" (*"community planning partner"*) yw person sy'n dod o fewn adran 38;

ystyr "strategaeth gymunedol gyfredol" (*"current community strategy"*) yw'r strategaeth gymunedol ar gyfer ardal awdurdod lleol a gyhoeddwyd o dan adran 39(4) neu, pan fo'r strategaeth wedi'i diwygio yn dilyn adolygiad o dan adran 41, y strategaeth a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar o dan adran 41(6).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at gam yn cael ei gyflawni neu swyddogaeth yn cael ei harfer er mwyn bodloni un o amcanion strategaeth gymunedol yn gyfeiriad at gam sy'n cael ei gyflawni neu swyddogaeth sy'n cael ei harfer yn y modd sydd wedi ei ddisgrifio yn adran 37(2)(c).

(3) Pan fo cyfeiriad yn y Rhan hon at beth sy'n gysylltiedig â swyddogaethau partner cynllunio cymunedol, nid yw'r swyddogaethau hynny'n cynnwys swyddogaethau'r partner o dan y Rhan hon.

(4) Caniateir i ddogfen y cyfeiriwyd ati gan y Mesur hon fel "strategaeth gymunedol" (neu gan ymadrodd sy'n cynnwys y term hwnnw) gael ei galw yn lle hynny yn ôl pa enw amgen bynnag y bydd awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn cytuno arno.